# DŴR-LYRIAD NOFIADWY



## 1. STATWS PRESENNOL

### 1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Cyfarwyddiaeth Cynefinoedd[a] (Atodiadau II, IV) |
| | Cytundeb Berne (Atodiad I) |
| DU a Chymru | Rheoliadau Cynefin[b] (Rhestr 4) |
| | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Rhestr 8) |
| | Blaenoriaeth CGB y DU |
| | Rhestr S74 Cymru[c] |
| Gwynedd | CGB Eryri |

### 1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Dim ond yn Ewrop y mae dŵr-lyriad nofiadwy i'w ganfod. Ystyrir llynnoedd Eryri a chanolbarth Cymru fel calon ei gynefin naturiol, ble mae gan y rhywogaethau hanes bodolaeth hir a chyson. Mae'n ymddangos ei fod wedi ymledu yn ddwyreiniol ar hyd y system gamlas yn ystod y 19eg ganrif. Mae'n debygol hefyd ei fod yn frodor o Gymbria, ble mae poblogaeth yn goroesi. Mewn mannau eraill mae'n digwydd yn unig fel cyflwyniad i ffosydd yn y Norfolk Broads ac mewn ychydig o ardaloedd yn yr Alban, er y gallai rhai poblogaethau fod wedi bodoli yn yr Alban cyn hynny. Cofnodwyd yr *L. natans* mewn 40 10x10 km sgwâr ers 1980[d].

### 1.3 Statws yng Ngwynedd[e]

Mae Gwynedd yn gadarnle i ddŵr-lyriad nofiadwy yng Nghymru. Mae i'w ganfod mewn llawer o lynnoedd gan cynnwys Llyn Padarn, Llyn Cwm Bychan, Llyn Cynwch, Llyn y Dywarchen, Llyn Cwm y Ffynnon, Llyn Cwellyn, Llyn y Gadair, Llyn Tegid, Llyn Nantlle Uchaf, Llyn Cwmorthin, Llyn Glasfryn, ac mae'r rhain i gyd heblaw am Lyn Padarn, Llyn Cwm y Ffynnon a Llyn Cwmorthin yn bodoli tu mewn i ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae dŵr-lyriad nofiadwy hefyd yn bodoli yn yr Afon Gwyrfai, Afon Geirch, Afon y Bala ac Afon Rhythallt. "Mae Llyn Cwellyn a'i all-lifiad a'r Afon Gwyrfai, yn cynnal un o'r poblogaethau mwyaf a mwyaf amrywiaethol o lyriad nofiadwy drwy Brydain".[1]

## 2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO'R RHYWOGAETH YNG NGWYNEDD[f]

- Ewtroffeiddio llynnoedd yr iseldir yn arbennig, o ganlyniad i oferiad o gaeau sydd wedi eu gor-wrteithio ymysg ffactorau eraill – ni all y llyriad nofiadwy gystadlu yn erbyn y llysdyfiant toreithiog sydd yn digwydd o ganlyniad.
- Asideiddio dalgylchoedd, sy'n fygythiad arbennig i boblogaethau mewn llynnoedd ucheldirol – ni all dŵr-lyriad nofiadwy fyw mewn amodau asidig iawn.
- Mae rheolaeth cyrsiau dwr hanesyddol gan gynnwys gwaith amddiffyniad gorlif megis taenellu, sythu a chamlesu cyrsiau dwr i gyd yn lleihau'r cynefin sydd ar gael i'r rhywogaeth.
- Aflonyddu gan gychod a badau pleser eraill

---

[a] Cyfarwyddeb Cyngor 92/43/EEC 21 Mai 1992 ynglyn a gwarchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt.
[b] Rheoliadau Cadwraeth Ewropeaidd (Cynefinoedd Naturiol) 1994
[c] Llywodraeth Cynulliad Cymru, mynd yn Wyllt yng Nghymru – Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Fiolegol. Hawlfraint y Goron, 2003.
[d] *Luronium natans*
[e] Gweler hefyd CGCau cysylltiedig
[f] Gweler hefyd CGCau cysylltiedig am ffactorau mwy cyfffredinol sy'n effeithio ar gynefinoedd rhywogaethau

## 3. CGR/CGC CYSYLLTIEDIG YNG NGWYNEDD

Coridorau afonydd, Llynnoedd, pyllau a ffosydd

Dyfrgi, Llygoden y dwr, Torgoch, Lampriaid, Eogiaid, Misglen berlog yr afon, Pelenllys

## 4. GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD[g]

### 4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Dŵr-lyriad nofiadwy yw'r prif reswm dros ddewis yr safleoedd canlynol ar gyfer eu dynodi'n ymgeiswyr ACA ac yn gorwedd yn rhannol o fewn Gwynedd: Afon Eden - Cors Goch Trawsfynydd, Eryri ac Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn. Mae'r ddau gyntaf i yn gorwedd o fewn ardal CGBL Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r rhywogaeth hefyd yn bresennol fel nodwedd cymwys o ymgeisydd ACA Rhinog. Gall poblogaethau hefyd fodoli mewn rhannau o Wynedd sydd wedi eu nodi fel Safleoedd Bywyd Gwyllt, neu wedi eu dynodi fel SoDdGA (gyda llawer o'r safleoedd llyn wedi eu nodi'n SoDdGAau).
- Mae angen Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) ar gyfer rhai datblygiadau o fewn coridorau afonydd, ac mae'r Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu asesiadau AEA ar gyfer holl weithiau mewnol yn cynnwys gwaith amddiffyniad gorlif arferol ac anarferol.
- Mae'r Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, drwy ganiatâd trwyddedig a chaniatâd yn cynnwys caniatâd dadlwytho, trwyddedu didynnu, Caniatâd Draeniad Tir ac Awdurdodiad Dŵr Daear.
- Mae angen caniatâd gan yr Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer gwaith draenio tir, gan gynnwys gwaith o fewn 7m o lan afon, ar gyfer Prif Afonydd dynodedig. Nid oes gan Prif Afonydd sydd heb eu dynodi unrhyw amddiffyniad rhag gynlluniau draenio, er fod rheoliadau a gyflwynwyd yn ddiweddar gan yr AEA (tir heb ei amaethu ayyb.[h]) yn cynnig ychydig o amddiffyniad yn erbyn draenio a gwella safleoedd dros 1 hectar.
- Dŵr-lyriad nofiadwy yw un o'r rhywogaethau sydd yn gymwys ar gyfer cyllid gan Gronfa Her y Rhywogaethau gan y Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

### 4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Mae offer tynnu maetholion wedi eu gosod yn Ngwaith Trin Carthffosiaeth Llanberis er mwyn lleihau y mewnbwn ffosffad i Lyn Padarn a oedd, o bosib, wedi cyfrannu at ffyniant algaidd yn y llyn.
- Mae'r prosiect Dŵr ar gyfer Bywyd Gwyllt sydd drwy Brydain (a adnabuwyd yn flaenorol fel y Prosiect Cŵn Dŵr ac Afonydd), yn cael ei redeg gan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, ac yn anelu at wneud gwaith cadwraeth gyda chymunedau lleol mewn cynefinoedd tiroedd gwlyb a glannau afonydd. Mae rheolwr i Gymru ar hyn o bryd, a bydd swyddog prosiect Gogledd Cymru yn ymuno gyda Rheolwr Cymru yn y dyfodol agos.
- Fel rhan o'r Prosiect Afonydd Glan (Cadw Cymru'n Daclus), mae pum grŵp Gofal Afonydd yng Ngwynedd ar hyn o bryd (y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri).

### 4.3 Arolygu, ymchwilio a monitro

- Gweithredwyd nifer o arolygon gan y CCGC ym 1994 yng Ngogledd Cymru a oedd yn cadarnhau y rhywogaethau mewn nifer o safleoedd
- Mae astudiaethau genynol diweddar wedi dangos pwysigrwydd llynnoedd Cymru fel safle ffynhonnell ar gyfer y planhigyn yma.

---

[h] Rheoliadau AEA ar gyfer defnydd o dir heb ei amaethu a safleoedd rhannol-naturiol ar gyfer pwrpasau amaethu dwys.

## 5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. I amddiffyn a chynnal rhychwant presennol dŵr-lyriad nofiadwy yng Ngwynedd
2. I ymestyn dosbarthiad presennol dŵr-lyriad nofiadwy

## 6. GWEITHREDU ARFAETHEDIG

| **Côd** | **Gweithredu** | **Partner(iaid)**[i] |
|---|---|---|
| **Polisi a Deddfwriaeth** | | |
| 1 | Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau mwn llecynnau sensitif yn cyd-fynd gyda cadwraeth dŵr-lyriad nofiadwy<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | ***CG***, Partneriaid perthnasol |
| 2 | Cynnwys camau gweithredu cadwraeth ar gyfer dŵr-lyriad nofiadwy o fewn holl gynlluniau AA perthnasol sydd i'w cyhoeddi yn y dyfodol<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **AA** |
| 3 | Sicrhau fod cynlluniau AA addas wedi eu gosod mewn lle ar gyfer SoDdGAau ble y gwyddys i dŵr-lyriad nofiadwy fodoli.<br>TARGED/AMSERLEN: I'w osod | AA, CCGC |
| **Rheolaeth a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd** | | |
| 4 | Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grant gan gynnwys Tir Gofal, AAS Llyn ac / neu defnyddio cytundebau rheolaeth ble fo hynny'n addas er mwyn sicrhau rheolaeth ffafriol o gylchfaoedd rhagod o gwmpas glannau llynnoedd sydd yn cynnal dŵr-lyriad nofiadwy, gyda'r bwriad o leihau asidiaeth, gan ystyried anghenion rhywogaethau a chynefinoedd CGBLl cysylltiedig<br>TARGED/AMSERLEN: I'w osod. Cyfredol | **AA**, CCGC, CT, CCth, UAC, GCFBG, CG, UCF, YG |
| 5 | Hybu gosod offer tynnu ffosffad mewn gweithfeydd trin carthffosiaeth sydd yn llifo i afonydd a llynnoedd perthnasol er mwyn rhwystro ewtroffeiddio<br>TARGED/AMSERLEN: I'w osod. Cyfredol | **AA**, CCGC, CG |
| **Cyngor** | | |
| - | Dim | |
| **Arolwg, ymchwil a monitro** | | |
| 6 | Casglu holl gofnodion o'r dŵr-lyriad nofiadwy yng Ngwynedd, i allu sefydlu statws lleol y rhywogaeth (storio'r gwybodaeth mewn ffurf electronig).<br>TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2005 | ***CCGC***, CBYP, CEH, CEL, AA, CG. PCB |
| 7 | Mewn cyswllt gyda CGBL APCE, trefnu arolwg sylfaenol o gynefinoedd addas i gynyddu gwybodaeth ynghylch dosbarthiad llyriad nofiadwy yng Ngwynedd<br>TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2006 | ***CCGC***, CBYP, CEH, CEL, AA, CG. |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | | |
| 8 | Codi ymwybyddiaeth, ymysg pysgotwyr a defnyddwyr y cynefinoedd perthnasol o faterion cadwraeth sy'n gysylltiedig gyda llyriad nofiadwy, a thrwy gyswllt gyda chlybiau pysgota, grwpiau Gofal Afonydd, a chanolfannau Chwaraeon Dŵr yng Ngwynedd<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | ***CG***, CCGC, AA |

[i] Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gyda ysgrifen dywyll, gwler adran 7.2 am eglurhad o'r byrfoddau

## 7 PARTNERIAID A CHYFLEON

### 7.1 Prif bartner ar gyfer CGR

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

### 7.2 Partneriaid allweddol

Asiantaeth Amgylchedd (AA)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Canolfan Ecoleg ac Hydroleg (CEH)

Cymdeithas Botaneg Ynysoedd Prydain (CBYP)

Cymdeithas Edward Llwyd (CEL)

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CyT)

Cyngor Gwynedd (CG)

Grwp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFBG)

Prifysgol Cymru Bangor (PCP)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (UCF)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

### 7.3 Cyfleon

Undebau ffermio, perchnogion tir a rheolwyr

## 8 DIOLCHIADAU


Prif Awduron: Nerys Davies a Kate Williamson (CG)
Ymgynghorydd: Nigel Brown (PCB, Gardd Botaneg Treborth), Trevor Dines (Plantlife), Carri Lane (AA)


## 9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, AEA: Asesiad ar yr Effaith ar yr Amgylchedd, AAS: Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif CGC: Cynllun Gweithredu Cynefin, ACA: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaethau, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, CRLD: Cynllun Rheoli Lefel Dŵr


Fersiwn 1, 2004


[1] http://www.jncc.gov.uk/ProtectedSites/SACselection